

Bwletin Ionawr 2016

Y BONT

Bu i'r hen bont lechen lithro i mewn i'r Hiraethlyn ar Ddydd Gŵyl San Steffan, a nawr mae'r llwybr o'r ffordd i Bryn Hir wedi cau. Bu i'r Cyngor Sir ymateb yn brydlon i glirio'r afon ac mae'n diolch yn fawr i'r contractwyr a gliriodd y bont y diwrnod canlynol. Rydym nawr yn gweithio gyda hwy



yn y gobaith o ail-godi pont newydd i gysylltu'r ddwy ochr o Bryn Hir; ymgorffori mewn darn eiconig o Lechen a fu'n ein gwasanaethu mor dda am ganrifoedd; a lleihau'r posibilrwydd a fyddai'n arwain at lifogydd yn yr ardal. Cysylltwch â Chlerc y Cyngor (Mrs Einir Jones: clerceglwysbach@hotmail.co.uk) os oes gennych unrhyw awgrymiadau i'w gwneud ynglŷn â'r Bont.

PILATES

Mae TÎM HAMDDEN GWLEDIG CONWY yn gobeithio cyflwyno dosbarth PILATES yn y Flwyddyn Newydd. Byddai ar ffurf bloc o 4 wythnos.

Nod PILATES yw cryfhau'r corff mewn ffordd gytbwys, gyda phwyslais penodol ar gryfder craidd ac osgo i wella ffitrwydd

cyffredinol a lles. Caiff yr ymarferion eu gwneud ar fat neu'n defnyddio offer arbennig.

Mae ganddo rywbeth i gynnig i bobl o bob oed a lefel o ffitrwydd; o ddechreuwr i athletwyr elitaidd. (Cyn dechrau unrhyw raglen ymarfer, fe'ch cynghorir i gael cyngor gan eich Meddyg Teulu neu broffesiynydd iechyd os oes gennych bryderon iechyd, megis cyflwr iechyd neu anaf). A fyddai gennych ddiddordeb? Pa ddiwrnod ac amser fyddai'n gyfleus? I GOFRESTRU EICH DIDDORDEB cysylltwch â Tim Ballam ar Timothy.Ballam@conwy.gov.uk neu Cyng.

Wendy Martin ar wendy.hanson@hotmail.co.uk

SIOP

Gyda thristwch y gwelwn siop y pentref a'r Swyddfa Bost yn cau ym mis Chwefror. Mae nifer o bobl wedi dangos diddordeb mewn ceisio cynnal rhyw fath o uned mân-werthu yn y pentref, ac ymweliad rheolaidd gan Swyddfa Bost symudol. Mae'r Cyngor Cymuned wedi bod yn ymchwilio i nifer o opsiynau dros y misoedd: hoffem wahodd aelodau o gymuned Eglwysbach sydd â diddordeb i ffurfio Pwyllgor Llywio er mwyn ymchwilio i'r opsiynau mwyaf ymarferol yn ddyfnach. Cefnogi'r hyn gan y Cyngor Cymuned.

Os byddech yn hoffi bod yn aelod o'r Pwyllgor Llywio, neu gydag awgrymiadau a fyddai o fudd, cysylltwch â Chlerc y Cyngor Mrs Einir Jones : clerceglwysbach@hotmail.co.uk

GWEFAN

Cofiwch fod gan y gymuned wefan - www.eglwysbach.org.uk.

Byddwn yn ei datblygu ymhellach yn ystod y misoedd nesaf, felly cadwch olwg arni!.